



**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU  
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES**

**Adroddiad Blynyddol  
Cydydffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg  
2019-20**

[www.llyfrgell.cymru](http://www.llyfrgell.cymru)



## Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Cydymffurfiaeth Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	4
3.	Cydymffurfiaeth Safonau Llundio Polisi	9
4.	Cydymffurfiaeth Safonau Gweithredu	10
5.	Monitro	17
6.	Safonau Atodol	17
7.	Blaenoriaethau ar gyfer Ebrill 2019 – Mawrth 2020: Cynnydd	18
8.	Blaenoriaethau ar gyfer Ebrill 2020 – Mawrth 2021	20

## Adran 1: Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Llyfrgell i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Llyfrgell drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Pwrpas y safonau yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae'r Mesur yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru bennu safonau yn y meysydd canlynol:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 25 Gorffennaf 2016. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Llyfrgell gydymffurfio a hwy, ac ar 25 Ionawr 2017 daeth 150 o safonau yn weithredol. Mae'r hysbysiad wedi ei osod ar wefan y Llyfrgell.

<https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/llywodraethiant/dogfennaeth-gorfforaethol/>

Yn sgil ymrwymiad hanesyddol y Llyfrgell i'r iaith Gymraeg, roedd y Llyfrgell eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arni trwy weithrediad ei Chynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.

Mae'n ofynnol i'r Llyfrgell gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Medi fel ag y gosodwyd yn Safonau'r Gymraeg (152, 158,164). Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg, ac mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.

Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Llyfrgell yn ei gynnal ar ei gwasanaethau.

Ni dderbyniwyd cwyn ynglŷn â chydymffurfiaeth y Llyfrgell â'r Safonau yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

## **Adran 2: Cydymffurfiaeth Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-83)**

### **Gohebu (Safonau 1-7)**

Mae staff yn ymateb i ohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn yr un iaith â'r llythyr neu'r e-bost gwreiddiol, gan nodi'r iaith ddewisol ar gyfer y dyfodol.

Wrth gychwyn gohebiaeth ag aelodau o'r cyhoedd, gwneir hynny drwy gyfrwng iaith ddewisol yr unigolyn/unigolion os yw hynny'n hysbys. Fel arall, anfonir yr ohebiaeth yn ddwyieithog a holir yr unigolyn/unigolion ynghylch eu hiaith ddewisol ar gyfer gohebu â ni. Pan geir yr wybodaeth yma, cofnodir yr iaith ddewisol ar gyfer y dyfodol ac mae staff yn ymdrin â'r person/personau yn eu hiaith ddewisol o hynny ymlaen. Os derbynir gohebiaeth uniaith oddi wrth y person mae'r staff yn gohebu â hwy, ond nid yw'r person wedi datgan ei iaith ddewisol, mae staff yn gohebu gyda'r unigolyn yn yr iaith yna o hynny ymlaen. Llofnodir copïau Cymraeg a Saesneg o ohebiaeth. Mae unrhyw waith sydd angen ei gyfieithu yn cael ei anfon at Swyddfa'r Llyfrgellydd, er mwyn trefnu hynny.

Un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2019-20 oedd sicrhau bod y Llyfrgell yn cydymffurfio'n llwyr â Safon 7. Nodwyd mewn arolwg gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod 2018-19 nad oedd pob gohebiaeth e-bost yn cynnwys datganiad sy'n nodi fod y Llyfrgell yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Nid yw'r Llyfrgell yn cydymffurfio'n llwyr â Safon 7. Anogir pob aelod o staff i ddefnyddio'r llofnod safonol. Mae'r llofnod yn cynnwys logo 'Cymraeg', ond nid yw'n cynnwys datganiad clir sy'n nodi fod y Llyfrgell yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Derbyniwyd cwyn gan ddarllynydd ar 19 Ebrill 2017 fod e-bost cydnabod Question Point yn uniaith Saesneg. Question Point yw'r sistem a ddefnyddiwyd gan y Llyfrgell i weinyddu ei gwasanaeth ymholiadau. Cysylltwyd â chwmni OCLC, oedd yn gyfrifol am Question Point, i adrodd y broblem iddynt. Nododd y cwmni mai nam technegol ar y system oedd yn gyfrifol fod neges uniaith Saesneg wedi ei hanfon allan ar yr achlysur yma, ac y byddent yn cywiro'r gwall. Ni dderbyniwyd cwyn wedi hynny, felly tybiwyd bod y broblem wedi ei goresgyn.

Dylid nodi fod sistem Question Point wedi dod i ben ar 29 Mai 2020, ond roedd hyn yn ystod blwyddyn 2020-21, tu allan i gyfnod yr adroddiad yma.

### **Galwadau ffôn (Safonau 8-10, 18, 20-21)**

Os yw aelod staff yn ateb galwadau ffôn allanol neu alwadau sydd wedi eu trosglwyddo gan y dderbynfa, maent yn ateb â chyfarchiad dwyieithog:

"Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales".

Anogir pob aelod o staff i osod neges recordiedig dwyieithog ar beiriant ateb eu ffôn, gyda'r Gymraeg o flaen y Saesneg. Os nad oes neges wedi ei osod, mae'r galwad yn cael ei flaenyrru i system neges llais y Llyfrgell, sydd â'r Gymraeg o flaen y Saesneg.

### **Gwasanaethau ffôn (Safonau 12-17, 22)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safonau yma.

Mae pob hysbyseb o rifau ffôn y Llyfrgell a'r Gymraeg cyn y Saesneg. Mae gwasanaeth Cymraeg ar gael ar brif rif ffôn y Llyfrgell yn barhaol. Os nad yw aelod o'r staff wedi gosod neges ar beiriant ateb ei ffôn, mae'r galwad yn cael ei flaenyrru i system neges llais y Llyfrgell, ble mae'r gwasanaeth cyfan yn Gymraeg. Mae hyn yn rhoi gwybod i aelodau o'r cyhoedd bod modd iddynt adael neges yn Gymraeg.

### **Cyfarfodydd (Safonau 23, 25, 25A, 25CH)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safonau yma.

Mae pawb sydd yn mynychu cyfarfod a gynhelir gan y Llyfrgell yn gallu defnyddio eu hiaith ddewisol yn y cyfarfod. Defnyddir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd lle nad yw pawb sydd yn mynychu yn gallu siarad Cymraeg.

### **Digwyddiadau cyhoeddus (Safonau 26-32)**

Mae pawb sydd yn mynychu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd a gynhelir gan y Llyfrgell yn gallu defnyddio eu hiaith ddewisol yn y cyfarfod. Mae gwahoddiadau i bob cyfarfod yn ddwyieithog. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod i bawb sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth yma. Mae pob deunydd ysgrifenedig cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog, yn ogystal â deunydd cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau. Mae cyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell yn agored i'r cyhoedd, a chyhoeddir agenda dwyieithog pob cyfarfod ar y wefan wythnos o flaen llaw. Cyhoeddir crynodeb o bapurau pob cyfarfod ar y wefan wythnos o flaen llaw, fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

### **Hysbysebu (Safonau 33-34)**

Mae pob deunydd cyhoeddusrwydd a ddefnyddir gan y Llyfrgell yn ddwyieithog.

### **Llunio dogfennau i'r cyhoedd (Safonau 36, 44-47)**

Mae dogfennau i'r cyhoedd ar gael fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, neu yn ddwyieithog.

Serch hynny, mae lle i wella ar hyn, gan fod angen sicrhau fod y fersiynau Saesneg yn datgan yn glir bod y dogfennau hefyd ar gael yn Gymraeg. Nodwyd mewn arolwg gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn 2018-19 bod anghysondeb rhwng dogfennau. Mae hyn yn digwydd mewn rhai dogfennau (e.e. mewn llyfrynau/taflenni/pamffledi) ond nid mewn dogfennau eraill (megis polisiau/strategaethau/datganiadau i'r wasg).

Nid yw'r Llyfrgell yn cydymffurfio'n llwyr â Safon 45. Mae ein polisiau, strategaethau a'n datganiadau i'r wasg i gyd yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Llyfrgell ble gellir dewis rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r fersiynau Saesneg o'r dogfennau yma yn cynnwys datganiad clir fod y dogfennau hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae rhai mathau o ddogfennau yn cynnwys y datganiad yma, ond nid yw hyn wedi ei gynnwys ym mhob math o ddogfen.

### **Gwefan y Llyfrgell (Safonau 48, 51-52)**

Mae gwefan y Llyfrgell yn gwbl ddwyieithog. Mae gosodiad pob tudalen yn gyson gyda thestun pob tudalen ar gael yn Gymraeg ac mae pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn. Mae'r tudalennau Saesneg yn cynnwys dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg cyfatebol ar ben y dudalen.

Mae pob dogfen a luniwyd gan y Llyfrgell, a gyhoeddwyd ar y wefan, ar gael yn y Gymraeg. Mae rhyngwyneb pob tudalen, a'r dewislenni ar bob tudalen, ar gael yn Gymraeg.

Roedd y Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safonau yma cyn y dyddiad dyroddi.

### **Apiau a'r cyfryngau cymdeithasol (Safon 53-55)**

Mae'r Llyfrgell yn cydymffurfio â Safon 53. Rydym wedi datblygu 3 ap (yr Anthem Genedlaethol, Cymru yn y Rhyfel, a Smartify) yn y blynyddoedd diwethaf. Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol 2018-19, mae her yn codi wrth ddatblygu gwefannau ac unrhyw adnoddau digidol yn ddwyieithog, yn enwedig os yw'n golygu gweithio gyda chwmnïau allanol am nad yw cwmnïau allanol yn cynllunio a datblygu apiau mewn modd sydd yn trosglwyddo'n hwylus i fod yn ddwyieithog. Rydym bob amser yn ymwybodol o'r angen i ddarparu ein gwasanaethau yn ddwyieithog ac mae honno'n un o'n hystyriaethau blaenaf wrth drafod cyfleoedd i ddatblygu apiau newydd.

Fel y nodwyd mewn adroddiadau blynyddol eraill, mae cyfrifon y Llyfrgell ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog. Yn achos Twitter a Periscope mae'r cyfrifon Gymraeg a Saesneg ar wahân, ond gyda Facebook, YouTube a Flickr un cyfrif dwyieithog sydd. Mae'r cynnwys i gyd yn ddwyieithog, ac eithrio negeseuon ar adegau penodol (er enghraifft, ymateb i neges rhywun arall neu ail-drydar) ac achosion ble gwnaed penderfyniad i beidio trydar yn Saesneg i hyrwyddo cynnwys (ar y Blog, er enghraifft) oedd ar gael yn Gymraeg yn unig.

### **Peiriannau hunanwasanaeth (Safon 56)**

Mae'r peiriannau talu hunanwasanaeth ym maes parcio'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safon yma, gyda'r Gymraeg yn iaith ddiodyfyn.

Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2017-18 nad oedd y peiriannau hunanwasanaeth ar gyfer taliadau llungopïo yn gweithredu drwy'r Gymraeg, ond ceir cyfarwyddiadau Gymraeg a Saesneg ar sut i'w defnyddio. Dau o'r blaenoriaethau yn dilyn Adroddiad 2017-18 oedd dechrau deialog gyda gwneuthurwyr y peiriannau ar y pwyntiau canlynol (gweler Adran 7):

- i. Sicrhau bod y peiriannau'n gweithio'n llawn yn Gymraeg
- ii. Sicrhau fod y Gymraeg yn iaith ddiodyfyn

Mae hyn yn parhau yn flaenoriaeth gan nad yw'r Llyfrgell yn cydymffurfio â Safon 56 ynghylch y peiriannau yma (gweler Adran 7). Mae sicrhau'r pwyntiau uchod ar waith. Nodwyd yn Adroddiad 2018-19 nad oedd y gwneuthurwyr yn cynnig y Gymraeg fel dewis ar gadarnwedd eu hargraffyddion. Mae angen fersiynau mwy newydd o'r peiriannau er mwyn iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog. Mae'r Llyfrgell wedi dechrau'r broses o gaffael peiriannau newydd yn ystod 2019-20 ac mae'r peiriannau presennol yn agosáu at ddiwedd eu hoes. Fodd bynnag, gyda'r gwaith adeiladu sydd yn cael ei wneud yn yr ystafelloedd darllen a thrafodaethau parhaus mewn perthynas â dyfodol yr ystafelloedd darllen, nid yw hyn wedi symud ymlaen ymhellach.

Mae arwydd yn yr Uned Reprograffeg sy'n annog ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad â'r staff yno.

Felly, mae'r Llyfrgell yn cydymffurfio'n rhannol â Safon 56.

## **Arwyddion (Safonau 57-59, 137-139)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safonau hyn.

Mae arwyddion sydd yn Gymraeg yn unig yn cael eu rhoi i'r chwith o'r arwydd Saesneg cyfatebol. Lle mae testun Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un arwydd, mae'r testun Cymraeg uwchben y testun Saesneg.

## **Y Dderbynfa (Safonau 60, 63-64)**

Mae'r gwasanaeth yn nerbynfa'r Llyfrgell yn gwbl ddwyieithog. Bydd yr holl ymwelwyr â'r dderbynfa yn cael eu cyfarch yn iaith yr ymwelydd os yw hynny'n hysbys. Fel arall, maent yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog.

Mae pob aelod o staff y dderbynfa yn rhugl yn y Gymraeg ac yn darparu gwasanaeth Cymraeg, ac maent yn gwisgo llinyn gwddf neu fathodyn sy'n cyfleu hynny. Mae arwydd yn y dderbynfa sy'n annog ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Llyfrgell. Roedd y Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safonau cyn y dyddiad dyroddi.

## **Hysbysiadau (Safonau 65-66)**

Mae hysbysiadau mae'r Llyfrgell yn eu cyhoeddi neu arddangos yn ddwyieithog, gyda'r fersiwn Gymraeg uwchben neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg. Os yw hysbysiadau'n cael eu cyhoeddi ar y wefan, mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae'r cynnwys yn gyfatebol ble mae'r fersiynau ar wahân.

## **Tendrau (Safonau 72-74, 76)**

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd gwahoddiadau i dendro am gontract gan y Llyfrgell ar safle GwerthwchiGymru (Sell2Wales) ac yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (Official Journal of the European Union – OJEU).

Darparir categorïau'r nwyddau CPV (Common Procurement Vocabulary) ar gyfer hysbysiadau OJEU gan yr Undeb Ewropeaidd yn y 22 iaith swyddogol yn unig. Nid oedd y Gymraeg yn iaith swyddogol llawn, ond yn iaith cyd-swyddogol. Nid oes fersiwn Gymraeg o'r gwahoddiadau OJEU am y rheswm uchod, ond mae hyn tu hwnt i reolaeth y Llyfrgell. Nodir nad yw'n ofynnol i gorff cyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Gymraeg yn y Cyfnodolyn Swyddogol.

Cyhoeddir gwahoddiadau ar GwerthwchiGymru fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae 4 gwahoddiad ar safle GwerthwchiGymru wedi eu gwneud yn ystod 2019-20. Nid oedd y Llyfrgell yn cydymffurfio â Safon 72, gan fod y gwahoddiadau yn y Saesneg yn unig. Roedd 2 gwahoddiad yn datgan y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg. Nid oedd un o'r gwahoddiadau yn datgan na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg, felly roedd y Llyfrgell yn cydymffurfio'n rhannol yn unig â Safon 73 yn ystod 2019-20.

Ni dderbyniwyd tendrau yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

## **Gwasanaethau Cymraeg (Safonau 77-78)**

Mae'r Llyfrgell eisoes yn cydymffurfio â'r Safonau yma.

Mae holl wasanaethau'r Llyfrgell ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ceir gwybodaeth amdanynt ar wefan y Llyfrgell, gyda phob tudalen ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae deunydd sydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau'r Llyfrgell yn ddwyieithog. Nid yw'r deunydd yma, neu'r wefan, yn cyfeirio at y gwasanaethau sydd ar gael yn y naill iaith neu'r llall, gan eu bod i gyd ar gael yn y ddwy iaith.

### **Hunaniaeth Gorfforaethol y Llyfrgell (Safon 79)**

Enw swyddogol y Llyfrgell yw 'Llyfrgell Genedlaethol Cymru The National Library of Wales'. Mae hyn wedi ei ddangos yn glir ar bob eitem o ddeunydd swyddfa safonol y Llyfrgell, boed y defnydd yn fewnol neu yn gyhoeddus. Mae pob eitem o wybodaeth ar yr eitemau yma yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg bob tro.

Diwygiwyd logo'r Llyfrgell yn 2017 a chyhoeddwyd Canllawiau Brandio ar fewnrwyd y Llyfrgell. Diwygiwyd y canllawiau yma yn ystod 2018. Dyluniwyd y logo i'w ddefnyddio ar bob deunydd corfforaethol, deunydd mewnol a chyhoeddus ac ar gyfer amgylcheddau print a sgrin. Dyma'r unig fersiynau o'n logo y dylid eu defnyddio. Mae'r logo wedi ei ddylunio i roi'r Gymraeg uwchben y Saesneg.

Mae'r Canllawiau'n nodi fod logo Llyfrgell Genedlaethol Cymru bob amser yn ddwyieithog. Pryd bynnag a ble bynnag y caiff ei ddefnyddio, yng Nghymru a thu hwnt, rhaid defnyddio'r logo dwyieithog.

### **Addysg (Safon 80)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol a'r Safon yma.

Nid yw'r Llyfrgell yn darparu cyrsiau addysg, yn yr ystyr fod cwrs yn golygu cyfres o sesiynau dysgu. Mae'r holl weithgareddau mae'r Gwasanaeth Addysg yn eu darparu i gynorthwyo dysgwyr yn y sector addysg yn medru cael eu cyflwyno yn Gymraeg neu'n Saesneg. Pan fydd y Gwasanaeth Addysg yn cynnig gweithdai sy'n cael eu harwain gan barti allanol nad sy'n medru cynnig y cynnwys yn Gymraeg, bydd aelod o'r gwasanaeth yn bresennol i gyfieithu neu gyflwyno'n Gymraeg pe bai angen.

### **Cyhoeddiadau dros y system annerch gyhoeddus (Safonau 83, 140)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safonau hyn.



### **Adran 3: Cydymffurfiaeth Safonau Llundio Polisi (Safonau 84-89, 91-93, 144)**

#### **Llundio Polisiâu (Safonau 84-89, 91-93, 144)**

Mae'r Gymraeg yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff y Llyfrgell, ac mae brwdfrydedd wrth roddi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth lunio polisi – digwydd hynny'n gwbl naturiol, neu ceisir cyngor gan y Swyddog Gweinyddol yn Swyddfa'r Llyfrgellydd.

Nodwyd mewn arolwg gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod 2018-19 bod angen sicrhau fod y Llyfrgell yn ceisio barn ar yr effaith ar y Gymraeg mewn papurau ymgynghori bob amser. Ni fu cyfnod ymgynghori yn ystod 2019-20.

Ni dderbyniwyd cwyn ynglŷn â chydymffurfiaeth y Llyfrgell â'r safonau llundio polisi yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

## **Adran 4: Cydymffurfiaeth Safonau Gweithredu**

### **Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol (Safon 94)**

Mae'r Polisi a chanllawiau i'r Safonau wedi eu cyhoeddi ar fewnwyd y Llyfrgell. Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safon yma.

### **Adnoddau Dynol:**

#### **Hawliau'r Cyflogai (Safonau 95-100)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

#### **Cyhoeddi Polisiâu (Safonau 101-107)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

#### **Cwynion (Safonau 108-109, 111)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

#### **Disgyblu (Safonau 112-113, 115)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

#### **Datblygu Sgiliau yn y Gymraeg / Hyfforddiant (Safonau 123-129, 145-146)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

Mae'r Llyfrgell wedi darparu hyfforddiant tair awr yr wythnos i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ers Gorffennaf 2017 o dan gynllun cyrsiau Cymraeg Gwaith sylfaenol a chanolradd. Mae'r cyrsiau yma wedi parhau yn ystod 2019 - 2020:

Roedd cyrsiau Cymraeg Sylfaenol (7 aelod staff yn mynychu) a Chymraeg Canolradd (7 aelod staff yn mynychu) wedi parhau yn y cyfnod Ebrill 2019 - Mawrth 2020.

Ni fu Cwrs Gloywi Iaith yn ystod y cyfnod Ebrill 2019 – Mawrth 2020.

Mae 1 aelod o staff wedi mynychu Cwrs Cymraeg Preswyl.

Roedd nifer y cyflogeion oedd yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn yn 127.

Mae'r ystadegau fel a ganlyn:

#### Gwrando/Siarad

0	2.34%	3
1	5.47%	7
2	3.13%	4
3	11.72%	15
4	21.09%	27
5	56.25%	72
Cyfanswm	100%	128

#### Darllen/Deall

0	0.78%	1
1	5.47%	7
2	6.25%	8
3	5.47%	7
4	29.69%	38
5	52.34%	67
Cyfanswm	100%	128

#### Ysgrifennu

0	2.34%	3
1	4.69%	6
2	7.03%	9
3	12.50%	16
4	18.75%	24
5	54.69%	70
Cyfanswm	100%	128

Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y ffigurau am 2018-19 (242) a 2019-20 (127). Mae'r ffigur am 2019-20 yn adlewyrchu'r nifer o staff a ymatebodd i'r holiadur blynyddol. Bu'n rhaid cau'r Llyfrgell oherwydd sefyllfa COVID-19 ar 20 Mawrth 2020 ac nid oedd pob aelod o staff wedi medru ymateb i'r holiadur.

Mae'r canlyniadau uchod yn ôl Fframwaith ALTE. Mae'r Fframwaith fel a ganlyn:

## Fframwaith ALTE (The Association of Language Testers of Europe)

Lefel	Gwrando/Siarad	Darllen/Deall	Ysgrifennu
0	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd.</li> </ul>
1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ynganu geiriau, enwau lleoedd ac enwau personol Cymraeg yn gywir.</li> <li>Gall gyfarch cwsmeriaid wyneb yn wyneb neu dros y ffôn a defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol megis diolch, os gwelwch yn dda, ac ati.</li> <li>Gall ddechrau a gorffen sgwrs.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddeall geiriau a brawddegau allweddol syml am faterion cyfarwydd / rhagweladwy yn ymwneud â'i faes / maes gwaith ei hun, megis ar arwyddion ac mewn llythyrau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi Cymraeg, ac ati.</li> <li>Gall lenwi ffurflenni syml a chofnodi gwybodaeth syml megis cyfeiriad Cymraeg, a dyddiad a lleoliad cyfarfod.</li> </ul>
2	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddeall craidd sgwrs.</li> <li>Gall ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol.</li> <li>Gall ofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml.</li> <li>Gall ddechrau a gorffen sgwrsiau a chyfarfodydd yn ddwyieithog.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddeall negeseuon a llythyrau neu e-byst sylfaenol iawn.</li> <li>Gall ddeall gwybodaeth ffeithiol ac arferol am faterion cyfarwydd yn ymwneud â'i faes / maes gwaith ei hun, megis mewn llythyrau a thafleuni safonol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ysgrifennu nodiadau / negeseuon syml byr ar amrywiaeth gyfyngedig o dopigau rhagweladwy'n ymwneud â'i faes / maes gwaith ei hun.</li> </ul>
3	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddeall llawer o'r hyn sy'n cael ei ddweud yn y swyddfa neu mewn cyfarfod.</li> <li>Gall gynnal sgwrs syml ar dopig yn ymwneud â'r swydd ond efallai bod angen troi at y Saesneg i drafod gwybodaeth fwy cymhleth neu dechnegol.</li> <li>Gall ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol.</li> <li>Gall gymryd a throsglwyddo'r rhan fwyaf o negeseuon.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall fras-ddarllen testunau am wybodaeth berthnasol.</li> <li>Gall ddeall amrywiaeth weddol o destun arferol ac anarferol yn ymwneud â'r swydd pan ddefnyddir iaith safonol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ysgrifennu negeseuon ac adroddiadau anffurfiol at ddefnydd mewnol ond byddai angen i waith ysgrifenedig mwy ffurfiol gael ei wirio gan rywun sy'n meddu ar lefel gymwys o Gymraeg ysgrifenedig.</li> </ul>

			<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall gymryd nodiadau tra bo rhywun yn siarad.</li> </ul>
4	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall gyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd o fewn ei faes / maes gwaith ei hun.</li> <li>Gall ddeall gwahaniaethau o ran iaith a thafodiaith.</li> <li>Gall ddadlau o blaid neu yn erbyn achos penodol.</li> <li>Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau'n hyderus o'r Gadair.</li> <li>Gall roi cyflwyniadau'n rhugl a hyderus yng nghyd-destun y maes gwaith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddarllen a deall gwybodaeth yn weddol gyflym os na ddefnyddir geirfa anarferol ac os nad yw'r wybodaeth yn gymhleth neu'n dechnegol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall baratoi llythyrau ffurfiol, gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost, ac ati.</li> <li>Gall ysgrifennu adroddiad neu ddogfen syml ond byddai angen cael rhywun sy'n meddu ar lefel gymwys o Gymraeg ysgrifenedig i'w wirio / gwirio.</li> <li>Gall gymryd nodiadau eithaf cywir mewn cyfarfodydd.</li> </ul>
5	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall gyfrannu'n rhugl a hyderus mewn perthynas â phob agwedd ar y gwaith pob dydd, gan gynnwys trafod a rhoi cyngor ar faterion technegol, arbenigol neu sensitif.</li> <li>Gall roi cyflwyniadau, a chyfweliadau i'r cyfryngau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddeall gwybodaeth gymhleth a fynegir mewn iaith gymhleth, arbenigol neu dechnegol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth, erthyglau, ac ati.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ysgrifennu gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth sy'n rhoi gwybodaeth i safon dderbyniol gyda chymorth offer iaith.</li> <li>Gall ysgrifennu nodiadau manwl mewn cyfarfod a chyfrannu iddo'n llawn yr</li> </ul>

			un pryd.
--	--	--	----------

Roedd nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd yn y Gymraeg yn 334 (roedd aelodau unigol o staff wedi mynychu mwy nag un cwrs yn y Gymraeg).

Roedd y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn Cymraeg o gyrsiau yn 69.29%.

### **Swyddi newydd / swyddi gwag (Safonau 132-134, 136, 147, 148)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safonau yma. Diweddarwyd y ffurflen gais am swyddi cyfredol ar ddechrau 2020, ac mae'n nodi:

'Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol yn achos llawer o swyddi'r Llyfrgell. Os yw'r Disgrifiad Swydd yn nodi hynny, disgwylir i chi lenwi eich Ffurflen Gais yn y Gymraeg a bydd yr asesiad (os bydd galw am hynny) a'r cyfweiliad hefyd yn Gymraeg'

Mae'r Canllawiau i Ymgeiswyr a ddsberthir gyda'r ffurflen gais yn nodi hynny hefyd.

Barn y Llyfrgell yw bod hyn yn bodloni'r gofyniad yn Safon 134 i roi lle ar y ffurflen gais i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg.

Mae ffurflen gais y Llyfrgell yn gwbl ddwyieithog, ac felly, os oes ymgeisydd yn ei lenwi yn Gymraeg (fel sy'n digwydd efo'r canran uchaf o geisiadau) mae'r Llyfrgell yn ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob cyfweiliad neu asesiad yn cael ei gyfathrebu cyn y digwyddiad i'r unigolyn gan nodi iddynt roi gwybod os bod unrhyw anhawster am y broses. Ar gychwyn pob cyfweiliad, mae'r panel yn gofyn i'r ymgeisydd os ydynt yn hapus i gael ei cyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyma'r ystadegau am y nifer o swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn a gatedoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn-

bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol 32

bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd 0

bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol 2

nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol 1

Ni dderbyniwyd cwyn ynglŷn â chydymffurfiaeth y Llyfrgell â'r safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio a hwy.

### **Meddalwedd gyfrifiadurol (Safon 116)**

Mae meddalwedd Cysgliad wedi ei osod ar bob cyfrifiadur yn y Llyfrgell er mwyn i staff wirio sillafu a gramadeg y Gymraeg.

### **Mewnryd y Llyfrgell (Safonau 117, 120-122)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r rhan fwyaf o'r Safonau hyn.

Sefydlwyd mewnryd dros-dro yn ystod Chwefror 2017 gyda'r bwriad o sefydlu mewnryd barhaol wedi hynny. Bwriadwyd y fewnryd bresennol i fod yn system ffeiliau, ac nid mewnryd gwe lawn (HTML). Nid oes nodyn ar y tudalennau Saesneg bod y tudalennau yna ar gael yn Gymraeg. Mae

dolen i hafan y fewnrwyd ar bob tudalen ond nid oes dolen uniongyrchol i'r tudalennau Cymraeg ar y tudalennau Saesneg cyfatebol. Mae'n ymddangos bod hyn am resymau technegol (nid yw'n fewnrwyd gwe lawn).

Cafwyd gwybod gan Adran Technoleg Gwybodaeth y Llyfrgell nad 'tudalennau' sydd ar y fewnrwyd ond set o ffolderi/ffeiliau. Nid oes modd symud yn ôl ag ymlaen rhwng ieithoedd y ffeiliau gan eu bod mewn ffolderi gwahanol. Un tudalen sydd ar y fewnrwyd, sef y dudalen flaen, ac mae hi'n ddwyieithog o ran cynnwys. Os dehonglir Safon 120 yn llythrennol, nid oes modd i'r Llyfrgell gydymffurfio â'r Safon gan nad oes nodyn ar y 'tudalennau' eu bod ar gael yn Gymraeg. Ar y llaw arall, mae'r dudalen flaen (sef yr unig dudalen ar y 'fewnrwyd') yn gyfan gwbl ddwyieithog.

Mae'r fewnrwyd bellach wedi symud i Microsoft SharePoint. Mae'r dudalen flaen yn aros yr un peth, sef tudalen dwyieithog html ond mae'r ffeiliau nawr ar Microsoft SharePoint sef system ffeiliau sy'n rhan o Microsoft Teams, system a ddefnyddiwyd o achos i argyfwng Covid-19. Nid oes bwriad symud oddi ar y system yma.

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â Safon 121.

### **E-bost (Safonau 130-131)**

Mae'r Llyfrgell wedi darparu templed safonol canolog a chyfarwyddiadau ar sut i weithredu llofnod safonol ar gyfer pob aelod o staff. Mae hyn ar gael drwy daflen gymorth ar y fewnrwyd. Mae'r templed yn galluogi staff i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst. Disgwylir i bob aelod staff defnyddio'r templed. Mae ffeil HTML wedi ei hysgrifennu ymlaen llaw ac mae'r ffeil yma ar gael mewn ffolder canolog, ar gael i bob aelod o staff. Mae'r ffeil yn hwyluso cynnwys logo 'Cymraeg' yn eu llofnod.

Fodd bynnag, nid yw Adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Llyfrgell yn dal teitlau swydd pawb o'r staff yn ganolog felly nid oes modd awtomeiddio'r broses ymhellach ar hyn o bryd. Y gobaith yw bod y gofynion ar gyfer system Adnoddau Dynol newydd yn cynnwys gallu cynnal hyn.

### **Cadw cofnodion cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Safonau 141-143)**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safonau hyn.



## Adran 5: Monitro

Mae'r Swyddog Gweinyddol yn Swyddfa'r Llyfrgellydd yn gyfrifol am fonitro cyrhaeddiad y Llyfrgell yn erbyn y Safonau, a sicrhau fod y Llyfrgell yn cydymffurfio â'r Safonau. Mae gwasanaethau eraill o fewn y Llyfrgell yn darparu adnoddau er mwyn sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn, sef y Tîm Addysg; yr Uned Adnoddau Dynol; yr Isadran Mynediad Digidol (sy'n gyfrifol am gynnwys y wefan, apiau a'r cyfryngau cymdeithasol); a'r Adran Technoleg Gwybodaeth.

Sefydlwyd Grŵp Gweithredu yn y cyfnod rhwng dyddiad dyroddi'r Safonau a diwrnod gosod y Safonau yn y Llyfrgell. Prif gyfrifoldeb y grŵp ers diwrnod gosod y Safonau yw sicrhau goruchwyliaeth o'r Safonau yn gorfforaethol. Aelodau'r grŵp yma yw:

- Pedr ap Llwyd (Prif Weithredwr a Llyfrgellydd)
- Carol Edwards (Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr)
- Annwen Isaac (Rheolwr Adnoddau Dynol)
- Endaf Edwards (Swyddog Gweinyddol)

## Adran 6: Safonau Atodol (Safonau 149-168)

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Safonau hyn.

Cyhoeddwyd Hysbysiad Cydymffurfio'r Llyfrgell ar ein gwefan ac ar fewnwyd y staff. Cyhoeddwyd Polisi Cwynion ar wefan y Llyfrgell, ac fe ymdrinnir â chwynion ynghylch cydymffurfiaeth y Llyfrgell â Safonau'r Gymraeg yn yr un modd â chwynion eraill. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu, sydd yn gyfrifol am oruchwyllo'r modd y mae'r Llyfrgell yn cydymffurfio â'r Safonau (gweler Adran 5 o'r adroddiad yma).

## Adran 7: Blaenoriaethau ar gyfer Ebrill 2019 – Mawrth 2020: Cynnydd

- Safon 7: sicrhau fod pob gohebiaeth e-bost yn cynnwys datganiad sy'n nodi bod croeso i ohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Nid yw'r Llyfrgell yn cydymffurfio'n llwyr â Safon 7. Anogir pob aelod o staff i ddefnyddio'r llofnod safonol. Mae'r llofnod yn cynnwys logo 'Cymraeg', ond nid yw'n cynnwys datganiad clir sy'n nodi fod y Llyfrgell yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Atgoffwyd yr holl staff drwy e-bost y disgwylir i bob aelod o staff ddefnyddio'r llofnod e-bost newydd sydd ar gael ar y fewnwyd a chynnwys datganiad yn eu e-byst na fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

- Safon 45: sicrhau cysondeb rhwng dogfennau o ran datgan yn glir fod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg, yn arbennig gyda pholisïau/strategaethau/datganiadau i'r wasg.

Ni wnaed cynnydd ar y flaenoriaeth yma.

- Safon 72: sicrhau fod gwahoddiadau i dendro am gontract yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg.

Ni wnaed cynnydd ar y flaenoriaeth yma.

- Safon 73: datgan mewn gwahoddiadau i dendro am gontract y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

Cyhoeddwyd 4 gwahoddiad ar Gwerthwchi Gymru yn ystod 2019-20. Roedd 2 yn datgan y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac nid oedd un o'r gwahoddiadau yn datgan na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. Felly, roedd y Llyfrgell yn cydymffurfio'n rhannol â'r Safon yma.

- Safon 87-89: sicrhau fod y Llyfrgell yn ceisio barn ar yr effaith ar y Gymraeg mewn papurau ymgynghori bob amser.

Ni fu cyfnod ymgynghori gan y Llyfrgell yn ystod 2019-20.

- Safon 94: cwblhau'r broses o fabwysiadu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol a chanllawiau staff i'r Safonau.

Cwblhawyd. Mae polisi iaith mewnol a chanllawiau i'r staff wedi eu cyhoeddi ar fewnwyd y Llyfrgell ers mis Ionawr 2020.

- Safon 134: cydymffurfio drwy sicrhau bod ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg.

Mae'r Llyfrgell yn cydymffurfio â'r Safon yma (gweler Adran 4).

Barn y Llyfrgell yw bod y diwygiadau i'r ffurflen gais am swydd, a nodwyd yn Adran 4, yn bodloni'r gofyniad yn Safon 134 i roi lle ar y ffurflen gais i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg.

### **Cynnydd ar Safon 56 (o Adroddiad Blynyddol 2018-19)**

Yn ogystal â'r uchod, roedd un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2018-19 yn ymwneud â Safon 56: dechrau deialog gyda'r cwmni sy'n cyflenwi'r peiriannau hunanwasanaeth ar gyfer taliadau llungopïo i sicrhau eu bod yn gweithredu drwy'r Gymraeg.

Mae Adroddiad Blynyddol 2018-19 yn nodi'r canlynol:

'Dechreuwyd y deialog gyda'r gwneuthurwyr ac roedd yn ymddangos nad oeddent yn cynnig y Gymraeg fel dewis ar gadarnwedd eu hargraffyddion. Nodwyd bod y dyfeisiau yma yn agosáu at ddiwedd eu hoes. Mae anghenion hirdymor y Llyfrgell ynghylch peiriannau llungopïo hunanwasanaeth eto i'w drafod, ond mae'r Llyfrgell wedi dechrau chwilio am argraffyddion newydd sydd a'r gallu i gynnal y Gymraeg. Bwriedir i hyn gael ei gynnwys yn y gofynion am y peiriannau newydd.'

Cynhaliwyd deialog gyda'r gwneuthurwyr ac mae angen fersiynau mwy newydd o'r peiriannau er mwyn iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog. Mae'r Llyfrgell wedi dechrau'r broses o gaffael peiriannau newydd yn ystod 2019-20. Fodd bynnag, gyda'r gwaith adeiladu sydd yn cael ei wneud yn yr ystafelloedd darllen a thrafodaethau parhaus mewn perthynas â dyfodol yr ystafelloedd darllen, nid yw hyn wedi symud ymlaen ymhellach.

## Adran 8: Blaenoriaethau ar gyfer Ebrill 2020 – Mawrth 2021

- Safon 7: sicrhau fod pob gohebiaeth e-bost yn cynnwys datganiad sy'n nodi bod croeso i ohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.
- Safon 45: sicrhau cysondeb rhwng dogfennau o ran datgan yn glir fod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg, yn arbennig gyda pholisïau/strategaethau/datganiadau i'r wasg.
- Safon 56: Cwblhau'r broses o gaffael peiriannau hunanwasanaeth ar gyfer taliadau llungopïo a sicrhau eu bod yn gweithredu drwy'r Gymraeg.
- Safon 72: sicrhau fod gwahoddiadau i dendro am gontract yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg.
- Safon 73: datgan mewn gwahoddiadau i dendro am gontract y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.
- Safon 87-89: sicrhau fod y Llyfrgell yn ceisio barn ar yr effaith ar y Gymraeg mewn papurau ymgynghori bob amser.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Os hoffech dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Swyddog Gweinyddol fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Endaf Edwards

Swyddog Gweinyddol

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Penglais

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3BU

Ffôn 01970 632804

E-bost: [endaf.edwards@llyfrgell.cymru](mailto:endaf.edwards@llyfrgell.cymru)